Bute Energy Cymuned

## Nodiadau Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed 15 Gorffennaf 2025

### 1. Yn bresennol / Cyflwyniadau

Derrick Pugh (DP) – Cyngor Cymuned Trefeglwys

Y Cynghorydd Elwyn Vaughan (EV) – Cynghorydd Sir

Y Cynghorydd Gary Mitchell (GM) – Cynghorydd Sir

Sali-Ann Preston (SP) – Amddiffyn Glaslyn a Hafren

Endaf Meddins (EM) – Tirfeddiannwr Esgair Galed

Eluned Lewis (EL) – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy

Huw Rees (HR) – Rheolwr Prosiect Parc Ynni Esgair Galed, Bute Energy

Sara Powell-Davies (SPD) – Thirty4/7 Communications (trwy Teams)

### 2 Ymddiheuriadau

Edward Pugh – Cyngor Cymuned Trefeglwys

Maya Bimson – Amddiffyn Glaslyn a Hafren

### 3. Adolygu Cylch Gwaith a diben y Grŵp

- Esboniodd EL y Cylch Gwaith i'r grŵp. Dogfen fyw yw hon, a bydd fersiynau'n cael eu rhannu ar wefan y Prosiect yma: Esbonio ymgysylltiad lleol ynglŷn â pharc ynni gwynt ar y tir Esgair Galed

- Trosolwg ac amcanion:
    - Mae'r Grŵp Cyswllt Cymunedol yn fforwm i drafod syniadau, nid rhywle i wneud penderfyniadau am y Gronfa Buddsoddiad Cymunedol – ei ddiben yw lledaenu gwybodaeth er mwyn hysbysu pobl yn llawn.

- Aelodaeth – gweler y nodiadau ar hyn yn adran 4.

- Cadeirydd – gweler y nodiadau ar hyn yn adran 5.

- Cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol:

- Mae’r holl aelodau’n cytuno ar gynnal cyfarfodydd bob tri mis, ar ffurf hybrid, sy’n cynnig y cyfle i unigolion ymuno trwy Teams neu wyneb yn wyneb.
- Bydd agenda’r cyfarfod yn cael ei dosbarthu bythefnos o flaen llaw. Gall unrhyw aelod o’r grŵp awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda cyn hynny.
- Trafodwyd a oedd angen Grŵp Cyswllt Cymunedol ar y cam hwn o ddatblygiad y prosiect. Dywedodd HR ei fod wedi siarad â phreswylwyr sy’n destun arolygon prosiect a’i fod yn teimlo bod angen y grŵp yn awr i sicrhau bod mwy o gyfathrebu ynglŷn â’r prosiect, a gellir ei ddefnyddio fel modd o roi gwybod i bobl leol am unrhyw ddiweddariadau.

- Cod Ymddygiad
  - Cytunodd bawb ar hwn fel y’i rhannwyd yn y Cylch Gwaith

- Gwybodaeth a Gwelededd
  - Bydd agendâu a chofnodion cyfarfodydd ar gael ar wefan y prosiect yma: Esbonio ymgysylltiad lleol ynglŷn â pharc ynni gwynt ar y tir Esgair Galed
  - Bydd cofnodion drafft yn cael eu rhannu gyda’r aelodau i’w hadolygu a chytuno arnynt o fewn pythefnos. Bydd cofnodion terfynol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan bythefnos ar ôl eu dosbarthu ar gyfer cytundeb.

## Aelodaeth y Grŵp

## Aelodaeth arfaethedig yn y dyfodol

| Grŵp / Sefydliad a Gynrychiolir | Unigolyn / dirprwy enwebedig |
|---|---|
| Cyngor Sir | Y Cynghorydd Elwyn Vaughan |
| Cyngor Sir | Y Cynghorydd Gary Mitchell |
| Cyngor Sir | Y Cynghorydd Glyn Preston |
| Amddiffyn Glaslyn a Hafren | Maya Bimson / Sali-Ann Preston |
| Tirfeddiannwr Safle Esgair Galed | Endaf Meddins / Meilir Jones |
| Cyngor Cymuned Trefeglwys | Derek Pugh / Edward Pugh |
| Cyngor Cymuned Llanbrynmair | Y Cynghorydd Richard Ashton / Y Cynghorydd Bryn Jones |
| Cyngor Cymuned Glantwymyn | |
| Cyngor Cymuned Cadfarch | Elen Williams |
| Cyngor Cymuned Blaenrheidol | |
| Llanidloes – Heb Gyngor Cymuned | |
| Cyngor Cymuned Llangurig | |
| Cyngor Cymuned Carno | |
| Cymdeithas Gymunedol Clywedog | |
| Cwmni Cydweithredol Cymunedol Llwynygog | |
| Twristiaeth Leol | |
| Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn | Carla Evans |

Pwyntiau allweddol y cytunwyd arnynt o ran aelodaeth:

- Cynnwys cynrychiolydd o Gymdeithas Gymunedol Clywedog
- Cynnwys cynrychiolydd o Gwmni Cydweithredol Cymunedol Llwynygog
- Newid y disgrifiad o aelodaeth i egluro bod aelodaeth â'r grŵp yn gysylltiedig â'r sefydliad / grŵp yn hytrach na'r unigolyn. Er y gellid enwebu unigolyn i'w gynrychioli, mae croeso i'r grŵp anfon unrhyw aelod i'w gynrychioli yn y cyfarfod. Mae'r grŵp yn gofyn i'r unigolyn a enwebwyd i roi gwybod pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod os bydd yn dewis anfon cynrychiolydd gwahanol.

- Dim ond un cynrychiolydd o bob grŵp / sefydliad ddylai fynychu pob cyfarfod.
- Sicrhau y gwahoddir pob un o'r wyth cyngor cymuned o fewn 5km o'r safle.
- Penderfynwyd ar hyn yn seiliedig ar bresenoldeb isel gan gynghorau cymuned a wahoddir ar hyn o bryd ac i sicrhau bod cyfle i'r cynghorau cymuned eraill ymgysylltu â'r prosiect os ydynt yn dymuno. Ceir adolygu aelodaeth â'r grŵp mewn unrhyw gyfarfod fel y gwêl yr aelodau orau.
- Os na fynychir tri chyfarfod yn olynol, adolygir aelodaeth â'r grŵp.

Pwyntiau eraill perthnasol a drafodwyd:

- Fe all fod yn anodd os yw pobl yn cynrychioli dau grŵp, fel tirfeddiannwr sydd hefyd yn aelod o gyngor cymuned – dylai'r grŵp geisio osgoi hyn os oes modd.
- Er bod mwy o aelodau'n bresennol nag yn y cyfarfod cyntaf, nodwyd ei bod yn siomedig bod llai na hanner y gwahoddedigion wedi mynychu.
- Dywedodd EM nad yw'n ymddangos yn deg bod cynifer o gynghorwyr sir yn y grŵp ac nid mwy o bobl leol. Dylanwadodd hyn ar y penderfyniad i gynnwys y cynghorau cymuned ychwanegol yn ogystal â Chymdeithas Clywedog a Chwmni Cydweithredol Cymunedol Llwynygog.
- Nodwyd y dylai Bute ystyried aelodaeth y Grŵp Cyswllt Cymunedol yng nghyd-destun datblygiadau cronnol. Hynny yw, os oes cynlluniau eraill yn ardal ehangach y cynghorau cymuned sy'n ymwneud â'r Grŵp Cyswllt Cymunedol hwn (fel Parc Ynni Banc Du), dylai Bute ystyried a oes cyfle i gydweithio â'r cynlluniau / datblygwyr eraill hynny i leihau'r baich ar gynghorwyr cymuned a sir.
- Cytunodd EL i ofyn i Bute ystyried y pwynt hwn.

## 4. Penderfyniad ar benodi Cadeirydd

- Awgrymodd EL fodel cadeirydd sy'n cylchdroi fel bod unigolion gwahanol yn ymgymryd â'r rôl ym mhob cyfarfod.
- Dywedodd GM na fyddai aelod sy'n cadeirio'r grŵp yn gallu cyfrannu'n llawn at y drafodaeth.
- Dywedodd GM fod y datblygwr wedi cadeirio cyfarfodydd Grwpiau Cyswllt Cymunedol ynni gwynt ar y tir eraill y bu'n aelod ohonynt. Dywedodd fod diben y grŵp yn golygu nad yw'r Cadeirydd yn rheoli penderfyniadau ar gyfer y grŵp.

- O ganlyniad i'r uchod, cytunodd y grŵp eu bod yn fodlon i HR neu Thirty4/7 Communications arwain y grŵp trwy'r agenda i'w thrafod yn y cyfarfodydd, gan gyflawni rôl y cadeirydd, i bob pwrpas.

## 5. Diweddariad ar y Prosiect

- Rhoddodd HR grynodeb o'r hyn sydd wedi digwydd yn gysylltiedig â'r prosiect ers lansio ym mis Ionawr 2024:
    - Ionawr 2024 – Lansio'r prosiect ac ymgynghoriad anstatudol – cynigiwyd dyluniad cychwynnol o 26 o dyrbinau.
    - Bu 'saib' o oddeutu mis Mawrth 2024 tan fis Mawrth 2025 tra bod cytundebau tir yn cael eu cwblhau'n derfynol.
    - Mae rhai arolygon wedi bod yn parhau yn ystod y cyfnod hwnnw, tra bod gwaith technegol arall wedi cael ei oedi.
- Ers mis Mawrth 2025, mae gwaith dylunio wedi bod yn mynd rhagddo ar y prosiect, gan ystyried y wybodaeth arolwg ddiweddaraf, gan gynnwys asesiadau adareg, mawn, tirwedd a sŵn, cynnwys dyluniad llwybr mynediad mewnol, lleoliadau is-orsaf a chyfadeilad adeiladu, yn ogystal â llwybr cludo Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AIL). Proses ailadroddol yw hon, oherwydd pan gytunir ar newid i'r dyluniad, caiff pob maes effaith ei ailasesu cyn yr ailystyrir y dyluniad cyfannol.
- Cyn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus nesaf, bydd angen i'r prosiect baratoi Datganiad Amgylcheddol drafft sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol llawn.
- Bydd hwn yn cynnwys penodau fel ecoleg, cysgodion symudol, traffig a thrafnidiaeth, effeithiau cronnol, ac ati. Gweler gwefan prosiect Llyn Lort ar gyfer enghraifft o hyn – caeodd ei Ymgynghoriad Cyn-Ymgeisio ar 25 Gorffennaf.
- Ni fydd gwaith yn dechrau ar ysgrifennu'r Datganiad Amgylcheddol hyd nes bydd y dyluniad wedi'i gwblhau'n bendant. Disgwylir i hynny gael ei wneud yn yr hydref eleni.
- Mae'r dyluniad yn debygol o newid o'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol.
- Ymgynghoriad statudol – chwarter cyntaf 2026 – Ymgynghoriad Cyn-Ymgeisio.
- Mae'n rhaid i'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal yn rhan o'r broses gynllunio.

- Bwriedir cyflwyno'r cais cynllunio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn hwyr yn yr haf / diwedd 2026.
- Wedi hynny, disgwylir penderfyniad erbyn diwedd 2027, er bod hyn yn aml yn cael ei oedi am resymau amrywiol.
- SP – A fwriedir ymgynghori â phreswylwyr lleol ynglŷn â'r dirwedd?
    - HR – Bydd Asesiad Amwynder Gweledol Preswyl yn cael ei gynnal o eiddo a amlygwyd, sef y rhai sydd agosaf i'r safle, fel arfer. Mae gwaith ar hyn eisoes wedi dechrau.
    - Radiws 2km i amlygu eiddo.
    - Mae ugain eiddo wedi cael eu hamlygu – mae 17 o'r rhain wedi cytuno i fod yn rhan o'r asesiad. Cysylltwyd a siaradwyd â'r tri arall, ond nid oeddent eisiau cymryd rhan.
    - Ystyrir golygfannau cyhoeddus, hefyd.
- Cwblhawyd modelu sŵn yn ddiweddar. Bydd angen i ni ddangos yn y Datganiad Amgylcheddol sut rydym wedi osgoi effeithiau sŵn annerbyniol.
- Cysylltir ag ymgyngoreion statudol yn ystod yr ymgynghoriad.
- Yna, bydd amser i fyfyrio ar yr ymatebion cyn i'r prosiect gael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.
- Gellir defnyddio goleuadau hedfanaeth ar dyrbinau gwynt – ni fydd eu hangen ar bob tyrbin.
- Bu rhywfaint o ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynglŷn ag Esgair Galed eisoes a pharheir i wneud hynny ar adegau perthnasol.
- A oes golau ar y Mast Tywydd sydd bellach wedi'i godi?
    - Bydd HR yn ceisio cadarnhad ynglŷn â'r cwestiwn hwn.
- Nid oes digon o sicrwydd ynglŷn â'r llwybr trafnidiaeth i rannu manylion ar hyn o bryd.

## 6. Y Broses Buddsoddiad Cymunedol

- Pum prif thema
    - Addysg
    - Costau byw
    - Iechyd a hamdden
    - Yr amgylchedd a diwylliant

    - Cyflogadwyedd
- Mae mapio cymdeithasol yn edrych ar ddata ac yn amlygu anghydraddoldebau a materion o fewn ardaloedd lleol.
- Bellach, bwriedir siarad â phobl i gael mwy o fanylion am y grwpiau a'r sefydliadau cymunedol sy'n gweithio yn yr ardal ac amlygu ble mae angen cymorth fwyaf.
- Annog pobl i ymgysylltu â Bute Energy cyn y broses gydsynio.
- Mae £7.5k fesul megawat ar gael – bydd wedi'i seilio ar y capasiti gosodedig terfynol a gydsyniwyd. Bydd wedi'i fynegrifo ar hyd oes y parc ynni. Bydd yr arian yn mynd i elusen reoleiddiedig a lansiwyd yn y Sioe Frenhinol.
- Bydd y contract yn gysylltiedig â'r Parc Ynni, felly bydd yn gyfreithiol rwymol os gwerthir y parc.
- Bydd panel lleol yn gweithredu o dan yr ymddiriedolwyr cenedlaethol. Bydd paneli lleol ar gyfer pob Parc Ynni.
- Ystyrir llawer o wahanol ffyrdd y gellid defnyddio'r Gronfa Budd Cymunedol i gynorthwyo cymunedau lleol yn y ffordd orau.
- Trafodwyd y gwahanol ffyrdd y gellid defnyddio'r Gronfa Budd Cymunedol.
- Eglurodd EM ei fod o'r farn y dylai Tîm Budd Cymunedol Bute barhau i ymwneud â gweinyddu'r gronfa pan gaiff ei rhoi, o ystyried arbenigedd a phrofiad aelodau'r tîm.
- Heriwyd EL ynglŷn â sut y bydd Bute yn ystyried y Gronfa Budd Cymunedol ar gyfer Esgair Galed yng nghyd-destun prosiectau cronnol yn yr ardal ehangach. Cytunodd i ystyried hyn ymhellach. A fydd 'paneli lleol' cronnol ar gyfer prosiectau sy'n agos iawn i'w gilydd?
- Nodwyd sefydliadau i ymgysylltu â nhw / mentrau a fyddai'n cael eu cefnogi:
    - Cyfeiriodd EV at y Prosiect Eco4 – Cwm Belan.
    - Awgrymwyd ariannu paneli solar ar gyfer eiddo.
    - Awgrymwyd ystyried gwersi a ddysgwyd yn yr Alban ynglŷn â Buddsoddiad Cymunedol.
        - Archwiliadau ynni o eiddo.
        - Ystyried defnyddio gwres canolog olew a thanwydd solet.
    - Cyfeiriwyd at Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys (PAVO) fel sefydliad i ymwneud ag ef.

  - Nodwyd nad yw Asesiadau Lles Powys ymhlith y gorau, o bosibl – cânt eu hailysgrifennu bob pum mlynedd.
  - Mae gan Fenter Iaith Caerffili lawer o fentrau da, felly byddai Menter Iaith Powys yn sefydliad da i ymgysylltu ag ef.
  - Addysg – cymorth prifysgol / trafnidiaeth i'r coleg. Nodwyd bod Tirgwynt yn cynorthwyo unigolion o'r ardaloedd i fynd i'r brifysgol / cynorthwyo â chostau byw.
  - Cytunodd y grŵp nad oedd awydd i ddefnyddio'r arian i lenwi bylchau cyllidebol yr awdurdod lleol.
- Rhannodd SP fod Amddiffyn Glaslyn a Hafren o'r farn na fyddai unrhyw gyllid buddsoddiad cymunedol yn gwneud iawn am yr effaith ar fywyd gwyllt a'r niwed amgylcheddol a achosir gan y prosiect.
- Dywedodd EL y bydd Bute yn ceisio recriwtio ymddiriedolwyr profiadol yn fuan ar gyfer y CIO Cenedlaethol a gofynnodd i unrhyw argymhellion gael eu rhannu gyda Bute.

## 7. Cyfleoedd Gwirfoddoli

- Gan fod amser yn brin yn y cyfarfod, gofynnodd HR i'r aelodau gysylltu ag ef drwy e-bost gydag unrhyw gyfleoedd / awgrymiadau ar gyfer gwirfoddoli.
- Crybwyllodd HR y gwyddys fod aelodau lleol sy'n wardeiniaid Llwybr Glyndŵr a holodd a oes cyfle i'w cynorthwyo nhw?

## 8. Holi ac Ateb

- Gofynnwyd yr holl gwestiynau wrth drafod pwyntiau perthnasol.

## 9. Unrhyw Fater Arall – dim

## 10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Dydd Mercher 22 Hydref am 6.30pm

## Camau Gweithredu:

- SPD i ddosbarthu'r cofnodion drafft ymhlith aelodau'r grŵp ar gyfer sylwadau erbyn 29 Gorffennaf.

- Bute i rannu'r cofnodion terfynol ar wefan y prosiect erbyn 12 Awst.
- EM i gysylltu â Chymdeithas Clywedog i ofyn iddynt rannu manylion cyswllt yr unigolyn maen nhw'n dymuno ei enwebu ar gyfer y grŵp gyda Bute.
- GM i gysylltu â Chwmni Cydweithredol Cymunedol Llwynygog i ofyn iddynt rannu manylion cyswllt yr unigolyn maen nhw'n dymuno ei enwebu ar gyfer y grŵp gyda Bute.
- EV i gysylltu â'r busnesau twristiaeth lleol i ofyn iddynt rannu gyda Bute fanylion cyswllt yr unigolyn maen nhw'n dymuno ei enwebu ar gyfer y grŵp.
- Bute i rannu agenda ddrafft a gwahoddiad i'r cyfarfod erbyn 8 Hydref cyn y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref.